

# Cydlynnydd cydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth- hiliaeth

**Manyleb swydd, swydd ddisgrifiad a  
manyleb person**

## Cynnwys

Y Coleg – amdanom ni .....	3
Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth .....	4
Y swydd .....	4
Gwneud Cais .....	5
Cyfweliadau .....	5
Gwybodaeth bellach .....	5
Nod Cyffredinol y Swydd .....	7
Prif Ddyletswyddau .....	8
Meini Prawf .....	9
Sgiliau gwaith (hanfodol) .....	9
Sgiliau gwaith (dymunol) .....	9
Gwybodaeth a dealltwriaeth (hanfodol) .....	9
Gwybodaeth a Dealltwriaeth (dymunol) .....	9
Profiad (hanfodol) .....	10
Profiad (dymunol) .....	10
Addysg a Hyfforddiant (hanfodol) .....	10
Gofynion eraill (hanfodol) .....	10
Amodau'r Penodiad .....	11

# Manyleb Swydd

<b>Teitl y Swydd:</b>	Cydlynnydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth
<b>Ystod Cyflog:</b>	£30,942.11 – £32,816.25 pwyntiau sbinol 27 – 29 <i>i'w drafod yn unol â phrofiad</i>
<b>Lleoliad:</b>	Bangor, Caerdydd neu Gaerfyrddin  <i>Mae hyblygrwydd o ran lleoliad fel rhan o'n dull gweithio hybrid.</i>
<b>Statws Cyflogaeth:</b>	Cyfnod penodol hyd at 30 Medi 2023  <i>Mae'r Coleg yn barod i ystyried model amgen gan gynnwys secondiad neu benodi ar fodel ymgynghorydd rhan-amser.</i>
<b>Atebol i:</b>	I'w gadarnhau
<b>Staff â chyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt:</b>	Dim
<b>Dyddiad cau ceisiadau:</b>	14:00, 29 Hydref 2021
<b>Dyddiad Cyfweiliad:</b>	11 Tachwedd 2021

## Y Coleg – amdanom ni

Sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011. Y Coleg sy'n arwain datblygiad addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru. Mae'r Coleg yn cyflawni hyn drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â phrifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau er mwyn adeiladu cyfundrefn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg cynhwysol o'r radd flaenaf.

Er mwyn darganfod mwy am y Coleg ewch i: [www.colegcymraeg.ac.uk](http://www.colegcymraeg.ac.uk).

## Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth

*“Mae’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi pob ymdrech i greu sector ôl-orfodol sy’n sefyll yn gadarn ac yn rhagweithiol yn erbyn hiliaeth ac mae gennym rôl i’w chwarae i sicrhau’r newid sydd angen.”*

Lansiwyd ein [Cynllun Strategol](#) yn 2020 ac mae ymrwymiad clir ynddo i gydweithio i greu a chyfoethogi darpariaeth Gymraeg a dwyieithog cynhwysol i bawb. Fel arwydd pellach o’n hymrwymiad i’r agenda wrth-hiliaeth mae’r Coleg hefyd wedi llofnodi polisi [Dim Hiliaeth Cymru](#).

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae’r Coleg wedi rhoi cryn dipyn o sylw i’r maes amrywiaeth gyda ffocws pendol ar hil a gwrth-hiliaeth. Sefydlwyd grwp mewnol i ystyried y mater a blaenoriaethau cychwynnol y grwp oedd i sefydlu sail dystiolaeth ar ymwneud presennol y Coleg gyda phobl o gefndir Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (DALIE), annog timoedd ar draws y Coleg i ystyried sut y gellid cynyddu’r ymwneud hynny a sicrhau bod yr agenda yn cael lle mwy amlwg o fewn cynlluniau gwaith.

Yn fwy diweddar mae’r Coleg wedi comisiynu prosiect ymchwil er mwyn deall yn well yr hyn y gellid ei wneud i gynyddu’n hymwneud gyda phobl o gefndir DALIE, ac yn benodol sut y gellid sicrhau bod y cynlluniau [Llysgenhadon](#) a’r [Ysgoloriaeth Cymhelliant](#) yn denu mwy o bobl o’r cefndiroedd hyn i ymgeisio. [EYST Cymru](#) sy’n arwain ar y [prosiect ymchwil](#) ar ein rhan a byddant yn paratoi adroddiad fydd yn cynnwys argymhellion ar sut gall y Coleg gynyddu ei ymwneud gyda’r grwpiau hyn. Cyflwynir yr adroddiad i’r Coleg yn yr Hydref (2021).

Yn y pendraw, nod y Coleg ydy sicrhau bod mwy o bobl o gefndir DALIE neu sydd ag unrhyw nodweddion gwarchoddedig eraill o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael mynediad at ac yn derbyn addysg ôl-orfodol Gymraeg a dwyieithog. Mae gan y Coleg gryn dipyn i elwa o sicrhau bod aelodaeth ein grwpiau rhan-ddeiliadol, o fyfyrwyr a dysgwyr i ddarlithwyr ac ymarferwyr, yn fwy amrywiol. Ond mae gennym ddyletswydd hefyd i chwarae ein rhan mewn sicrhau nad yw eu profiadau o addysg ôl-orfodol Cymraeg a dwyieithog yn cael eu heffeithio’n negyddol oherwydd eu cefndir ethnig neu unrhyw nodweddion gwarchoddedig eraill.

Rydym wedi dechrau gweithredu i geisio sicrhau bod addysg Gymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yn gynhwysol ond mae angen inni wneud mwy.

### Y swydd

Mae’r Coleg yn edrych am unigolyn deallus a brwdfrydig i arwain ar ein hymdrechion i sicrhau bod y Coleg, ac addysg ôl-orfodol Cymraeg a dwyieithog, yn agored i bawb, beth bynnag eu cefndir.

Dymunwn benodi **Cydlynnydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth** i arwain ar ddatblygu a gweithredu Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth bum mlynedd. Bydd y strategaeth yn gosod amserlen a thargedau ar gyfer gweld cynnydd ar draws y maes dros y blynyddoedd i ddod. Bydd y strategaeth yn un uchelgeisiol gan ein bod yn dymuno cael effaith ar ein partneriaid yn y colegau addysg bellach a'r prifysgolion o ran ymwneud pobl o gefndir DALIE a phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig eraill gyda darpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Bydd cydweithio gyda rhan-ddeiliaid eraill yn y sector Gymraeg, yn y sector ôl-orfodol a gyda mudiadau sy'n cynrychioli pobl sydd a nodweddion gwarchoddedig yn elfen holl bwysig o'r swydd.

Bydd gan yr unigolyn brofiad o ymwneud gyda chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli yn y Coleg ar hyn o bryd - yn benodol pobl o gefndir DALIE a phobl anabl - a bydd dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â chroestoriadaeth (intersectionality) yn angenrheidiol.

Bydd deiliad y swydd yn cydweithio gyda rheolwyr a staff eraill oddi fewn i'r Coleg sy'n ymwneud â'r maes.

Bydd y penodiad yn amodol ar brawf o gymwysterau addysgol a thystlythyrau boddhaol, a bydd cyfnod prawf o chwe mis.

### **Gwneud Cais**

Dylid cyflwyno ceisiadau trwy gwblhau'r ffurflen gais a'r ffurflen fonitro cyfle cyfartal sydd ar wefan y Coleg <http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/amdanomni/swyddi/>. Ni fydd ceisiadau trwy CV yn dderbyniol.

Dylid cyfeirio pob cais i Suzanne Lewis, Rheolwr Gweithredu drwy e-bost at [s.lewis@colegcymraeg.ac.uk](mailto:s.lewis@colegcymraeg.ac.uk), a rhaid i bob cais gyrraedd **erbyn 14:00, 29 Hydref 2021**.

### **Cyfweliadau**

Bwrriedir cynnal cyfweliadau naill ai yn un o swyddfeydd y Coleg neu drwy Microsoft Teams ar 11 Tachwedd 2021. Bydd yr union leoliad yn cael ei gadarnhau gyda'r unigolion sy'n cyrraedd y rhestr fer, pan fyddwn ni'n eu gwahodd i gyfweliad.

### **Gwybodaeth bellach**

Gwahoddir y sawl sydd am gael gwybodaeth bellach am y swydd i gysylltu â Gwenllian Griffiths, Prif Swyddog Ymgysylltu, drwy e-bost at [g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk](mailto:g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk) i drefnu trafodaeth anffurfiol.

Nid yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr rhan neu lawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd o iaith (heblaw lle mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer swydd) neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Mae'r Coleg yn croesawu ac yn cymhell ceisiadau am swyddi oddi wrth grwpiau allai fod wedi eu tangynrychioli gan gynnwys pobl ddu ac o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Gweithredir egwyddorion cystadleuaeth agored a theg a phenderfynir ar benodiadau ar sail teilyngdod.

**Ar gyfer y swydd hon** rydym yn annog yn arbennig geisiadau gan ymgeiswyr anabl a phobl ddu ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (DALIE) o dan reolau gweithredu cadarnhaol y Ddeddf Gydraddoldeb 2010 gan fod y grwpiau hyn wedi eu tangynrychioli o fewn y Coleg.

# Swydd ddisgrifiad

**Teitl y Swydd:** Cydlynnydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth

**Ystod Gyflog:** £30,942.11 – £32,816.25  
(pwyntiau sbinol 27 – 29)

**Lleoliad:** *i'w drafod yn unol â phrofiad*  
Bangor, Caerdydd neu Gaerfyrddin

*Mae hyblygrwydd o ran lleoliad fel rhan o'n dull gweithio hybrid.*

**Statws Cyflogaeth:** Cyfnod penodol hyd at 30 Medi 2023

*Mae'r Coleg yn barod i ystyried model amgen gan gynnwys secondiad neu benodi ar fodel ymgynghorydd rhan-amser.*

**Atebol i:** I'w drafod

**Staff â chyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt:** Dim

## Nod Cyffredinol y Swydd

- Arwain ar ddatblygu a gweithredu Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth i'r Coleg.
- Cydweithio gyda rhan-ddeiliaid yn y sector Gymraeg, y sector ôl-orfodol a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl o gefndiroedd amrywiol er mwyn symud yr agenda yn ei blaen a sicrhau cynnydd yn erbyn targedau.
- Cyfrannu at egwyddorion ac amcanion cyffredinol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

# Prif Ddyletswyddau

## 1. Arwain ar ddatblygu a gweithredu Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth i'r Coleg.

- Arwain ar lunio strategaeth amrywiaeth, cydraddoldeb a gwrth-hiliaeth i'r Coleg sy'n cynnwys gosod amserlen gweithredu a thargedau addas.
- Cydlynu strategaeth amrywiaeth cydraddoldeb a gwrth-hiliaeth y Coleg gan sicrhau bod y gweithredoedd yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen a bod y Coleg yn cyrraedd y targedau sydd wedi eu gosod.
- Cadeirio grŵp mewnol y Coleg ar wrth-hiliaeth.
- Cynghori a chefnogi timoedd ar draws y Coleg i weithredu cynlluniau cynhwysol ar gyfer y meysydd addysg bellach, prentisiaethau ac addysg uwch.
- Ystyried a gweithredu ar yr argymhellion sy'n deillio o'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar gan EYST Cymru.
- Sefydlu system i fonitro cynnydd yn erbyn y strategaeth, gan y Coleg.

## 2. Cydweithio gyda rhan-ddeiliaid yn y sector Gymraeg, y sector ôl-orfodol a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl o gefndiroedd amrywiol er mwyn symud yr agenda yn ei blaen a sicrhau cynnydd yn erbyn targedau.

- Sefydlu a meithrin perthnasau a phartneriaethau gyda sefydliadau perthnasol er mwyn symud yr agenda yn ei blaen.
- Cynrychioli'r Coleg ar unrhyw bwyllgorau neu fforymau perthnasol.

## 3. Arall

- Cyfrannu at ymatebion y Coleg i ymgynghoriadau a gwaith polisi perthnasol arall.
- Cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau corfforaethol y Coleg yn ôl yr angen, e.e. Cyfarfod Blynnyddol, eisteddfodau, ayyb.
- Cynrychioli'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ôl y galw;
- Mynychu cyfarfodydd mewn lleoliadau eraill yn ôl yr angen;
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill i'w cytuno gyda'r Rheolwr Llinell.



# Manyleb Person

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar y medrau, y sgiliau, y galluoedd a'r wybodaeth a ganlyn er mwyn cyflawni'r swydd yn effeithiol.

## Meini Prawf

<p><b>Sgiliau gwaith (hanfodol)</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Sgiliau rhyngpersonol ardderchog gyda'r gallu i weithio ar bob lefel o fewn sefydliad a gyda phartneriaid a rhan-ddeiliaid allanol.</li><li>• Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig dwyieithog da, a'r gallu i gyfleu materion cymhleth yn gryno a dealladwy. (<i>Mae cefnogaeth ar gael i ddarparu cyrsiau gloymi iaith Gymraeg.</i>)</li><li>• Hunan gymhelliol, gyda'r awydd a'r gallu i addasu a dysgu.</li><li>• Sgiliau ymchwil a gwerthuso da iawn.</li><li>• Sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu rhagorol yn cynnwys defnydd busnes o Twitter, Facebook a gwefannau.</li></ul>	<p><b>Sgiliau gwaith (dymunol)</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Tystysgrif Sgiliau Iaith</li></ul>
<p><b>Gwybodaeth a dealltwriaeth (hanfodol)</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Dealltwriaeth a phrofiad o weithio a gwneud gwahaniaeth yn y maes amrywiaeth a chydraddoldeb.</li><li>• Dealltwriaeth amlwg o nodau ac amcanion y Coleg Cymraeg</li></ul>	<p><b>Gwybodaeth a Dealltwriaeth (dymunol)</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Gwybodaeth am y sector ôl-orfodol yng Nghymru</li><li>• Gwybodaeth a dealltwriaeth am addysg ôl-orfodol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog</li></ul>

**Profiad (hanfodol)**

- Medrau cynllunio, trefnu a rheoli prosiect rhagorol, gan gynnwys y gallu i:
  - weithio i derfynau amser tynn;
  - blaenoriaethu gwaith; a
  - chadw'r prosiect o fewn eu cwmpas.
- Y gallu i weithio heb oruchwyliaeth ac i ddarparu cyngor ac arweiniad i eraill ym maes amrywiaeth a chynhwysiant

**Profiad (dymunol)**

- Profiad o weithio yn y sector ôl-orfodol (addysg bellach, y sector brentisiaethau neu addysg uwch mewn rôl reoli/strategol/ cydlynu
- Profiad o weithio ar gynlluniau i gefnogi ehangu mynediad

**Addysg a Hyfforddiant (hanfodol)**

- Gradd neu gymhwyster lefel 4 cyfatebol

**Gofynion eraill (hanfodol)**

- Sensitifrwydd i ddiwylliannau a chefnidiroedd gwahanol
- Y gallu i deithio i leoliadau ar draws Cymru.

# Amodau'r Penodiad

Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

1. Mae'r penodiad yn ddarostyngedig i drefniadau Adnoddau Dynol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
2. Penodir ar gyflog ar ystod **£30,942.11 – £32,816.25**, sef pwyntiau sbinol 27 – 29.
3. Pennir yr union gyflog yn dilyn y cyfweiliad gan gymryd i ystyriaeth gymwysterau a phrofiad blaenorol
4. Bydd eich cytundeb cyflogaeth yn nodi 35 awr wedi eu contractio bob wythnos (amser llawn). Pennir yr oriau gwaith arferol drwy drefniant â'r rheolwr llinell. Bydd disgwyl, ar adegau, i'r sawl a benodir i weithio y tu allan i'r oriau arferol, lle y bo ymrwymadau gwaith yn galw am hynny.
5. Bydd hawl i **28 diwrnod** o wyliau'r flwyddyn yn ogystal ag 8 diwrnod o wyliau statudol a 4 diwrnod o wyliau neilltuol. Mae'r flwyddyn wyliau o 1 Medi i 31 Awst yn gynwysedig. Rhaid cymryd gwyliau blynyddol ar adegau y cytunir arnynt gan y rheolwr llinell.
6. Bydd deiliad y swydd yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS).
7. Ni chaiff y sawl a benodir ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth neu benodiad arall sy'n galw am gryn dipyn o'i (h)amser neu ei (h)egni heb ganiatâd Prif Weithredwr y Coleg.
8. Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i brawf o'r cymwysterau addysgol a restrir ar y ffurflen gais ac ar dderbyn 3 geirda derbyniol.
9. Bydd cyfnod prawf o dri mis pryd bydd cyfnod rhybudd o 2 wythnos yn weithredol.
10. Yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus, gellir terfynu'r cytundeb drwy i'r naill ochr neu'r llall roi rhybudd ysgrifenedig o nid llai na 3 mis.